

Cyngor Cymuned Y Fali Community Council

Clerc / Clerk Gwenda Owen
Cyfeiriad/Address: Trigfa, Four Mile Bridge, LL65 2EZ
Ffon/Tel:01407 740046
Eboost/Email: valleycommunitycouncil@gmail.com
Wefan: <http://www.cyngor-cymuned-fali.cymru>
Website: <http://www.valley-community-council.wales>

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor / Minutes of the Council's Meeting
15.06.22 7.00 yh/pm
Cyfarfod hybrid/Hybrid Meeting
Lleoliad/Location: Ysgol Gymuned y Fali/Valley Primary School

Linc i ymuno a chyfarfod Zoom/Link to Join Zoom Meeting

<https://us02web.zoom.us/j/89317762005?pwd=Y2FrK3VtOUdKekF5SUZua1R5TTFUQT09>

1	<p>Croeso</p> <p>Mynegodd y Cadeirydd gydymdeimlad ar ran Cyngor Cymuned y Fali â Mr H Hughes yn dilyn profedigaeth ddiweddar</p>	<p>Welcome</p> <p>The Chairman expressed condolences on behalf of Valley Community Council to Mr H Hughes following a recent bereavement.</p>
2	<p>Presennol Cynghorwyr: N Tuck (Cadeirydd) K Taylor (hefyd yn Cynghorydd Sir) M Swaine Williams G Browne MBE W Rogerson MBE I Jones</p> <p>Cynghorydd Sir G Jones</p> <p>Ymddiheuriadau C Seeley A Smith G Smith D Hughes</p> <p>Hefyd yn bresennol: G Owen Clerc</p>	<p>Present Councillors N Tuck (Chairman) K Taylor (also a County Councillor) M Swaine Williams G Browne MBE W Rogerson MBE I Jones</p> <p>County Councillor G Jones</p> <p>Apologies C Seeley A Smith G Smith D Hughes</p> <p>Also present: G Owen Clerk</p>
3	<p>Datganiad o ddiddordeb</p> <p>Dyweddodd y Cynghorydd Taylor, gan ei fod yn aelod o Bwyllgor Cynllunio'r Cyngor Sir, ei fod wedi cael gwybod y gallai aros yn bresennol tra byddai'r Cyngor Cymuned yn trafod unrhyw faterion/ceisiadau cynllunio ond na fyddai'n gallu cymryd rhan mewn unrhyw drafodaeth.</p> <p>Clerc i gael arweiniad gan Swyddog Monitro'r Cyngor Sir i sicrhau bod y Cyngor Cymuned</p>	<p>Declaration of interest.</p> <p>Councillor Taylor reported that as he was a member of the County Council's Planning Committee, he had been advised that he could remain present whilst the Community Council discussed any planning matters/applications but would not be able to participate in any discussions.</p> <p>Clerc to seek guidance from the County Council's Monitoring Officer to ensure that the Community</p>

	<p>yn cydymffurfio ag arferion datgan diddordeb.</p> <p>Dim datganiadau ychwanegol.</p>	<p>Council compliant with declaration of interest practises.</p> <p>No additional declarations.</p>
4	<p>Cofnodion Cyfarfod 18.05.22- cofnodion drafft ar gael ar Wefan y Cyngor Cymuned http://www.cyngor-cymuned-fali.cymru</p> <p>Cytunnwyd i dderbyn y cofnodion fel cofnod cywir.</p> <p>Cynnig/Eil WR/MSW</p>	<p>Minutes of meeting 18.05.22 - draft minutes on Community Council website http://www.valley-community-council.wales</p> <p>It was resolved to accept the minutes as a true and accurate record.</p> <p>Prop/Sec WR/MSW</p>
5.	Materion yn codi (18.05.22)	Matters arising (18.05.22)
5.1	<p>Grwp gwaith pobl ifanc - diweddariad y Cadeirydd</p> <p>Cynrychiolydd pobl ifanc:- Dywedodd y Cynghorydd Tuck nad oedd cynrychiolydd bobl ifanc yn gallu bod yn bresennol am resymau personol ond y byddai'n mynychu cyfarfod mis Gorffennaf.</p> <p>Sedd wag arall i aros ar agor.</p> <p>Prosiect Ysgol Gymunedol y Fali – adroddodd y Cynghorydd Browne bod cais cynllunio rhithwir yr ysgol wedi'i gyflwyno i'r Cyngor Sir ac roedd y Prifathro yn awyddus i gynrychiolwyr y Cyngor Cymuned fynychu sesiwn gyda disgyblion yr ysgol, lle gallent gyflwyno eu cais a cheisio sylwadau/ ateb cwestiynau a chael ei herio gan aelodau.</p> <p>Cytunnwyd y byddai'r aelodau canlynol yn mynychu, gyda'r clerc, am 5.00 o'r gloch, prynhawn dydd Iau, 7fed Gorffennaf, 2022.</p> <p>Cyng N Tuck Cyng G Browne Cyng M Swaine Williams Cyng K Taylor Cyng W Rogerson</p> <p>Cynnig/Eil WR/MSW</p>	<p>Young People Working group – Chairman's update</p> <p>Young people's representative:- Councillor Tuck reported that the young person's representative was unable to attend for personal reasons but would be attending the July meeting.</p> <p>Other vacant seat to remain open.</p> <p>Valley Community School Project – Councillor Browne reported that the school's virtual planning application had been presented to the County Council and the Headmaster was keen for Community Council representatives to attend a session with pupils at the school, where they could present their application and seek comments, respond to questions and challenge from members.</p> <p>It was resolved that the following members attend, together with the clerk at 5.00 p.m. on Thursday, 7th July 2022.</p> <p>Coun N Tuck Coun G Browne Coun M Swaine Williams Coun K Taylor Coun W Rogerson</p> <p>Prop/Sec WR/MSW</p>
	<p>Sedd Wag – Ward y Gorllewin (2)</p> <p>Dim mynegiad o ddiddordeb – dyddiad cau 28.05.22. Penderfynwyd i adael y seddi gwag yn agored.</p> <p>Sedd Wag – Ward y Pentref (1)</p> <p>Un mynegiant o ddiddordeb wedi ei dderbyn, dyddiad cau 17.06.22</p> <p>Penderfynwyd gwahodd yr ymgeisydd i gyfarfod mis Gorffennaf, gyda golwg ar</p>	<p>Vacant Seat West Ward (2)</p> <p>No expressions of interest, closing date 28.05.22. It was resolved to leave the vacant seats open.</p> <p>Vacant Seat – Village Ward (1)</p> <p>One expression of interest received, closing date 17.06.22</p> <p>It was resolved to invite the applicant to the July meeting, with a view to co-opting at the beginning of the meeting, signing the Declaration of Office</p>

	<p>gyfethol ar ddechrau'r cyfarfod, arwyddo'r Datganiad Swydd a chymryd rhan yn y cyfarfod wedi hynny.</p> <p>Cynnig/Eil MSW/KT</p>	<p>Form and participating in the meeting thereafter.</p> <p>Prop/Sec MSW/KT</p>
6	Materion Plwyfol	Parochial Matters
6.1	<p>Diffibriliwr – cytundeb</p> <p>Dywedodd y clerc fod y cytundeb rhwng Cyngor Cymuned y Fali a Chyngor Sir Ynys Môn bellach yn ei le.</p> <p>Cytunodd y Cynghorydd W Rogerson i fod yn warcheidwad y Cyngor Cymuned sy'n gyfrifol am y diffibriliwr. Cyng. Rogerson i gysylltu â Mr Bruce i drefnu cyfarfod safle a chasglu tystiolaeth o wiriadau rheolaidd a gynhelir ar y diffibriliwr bob chwarter. Y Clerc i ddatgysylltu manylion cyswllt â'r ddau barti.</p> <p>Mae cyfrifoldebau gwarcheidwad/dirprwy warcheidwad yn cynnwys:-</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwiriadau rheolaidd i sicrhau bod y diffibriliwr yn gweithio a bydd yn gweithredu pan fo angen • Sicrhau bod padiau electrod yn gyfredol • Ailosod batris • Sicrhau, os defnyddir yr uned, ei bod yn cael ei gwirio a'i disodli â phadiau newydd ar ôl iddi gael ei defnyddio <p>Cynnig/Eil WR/MSW</p>	<p>Defibrillator – agreement</p> <p>The clerk reported that the agreement between Valley Community Council and Isle of Anglesey County Council was now in place.</p> <p>Councillor W Rogerson agreed to be the Community Council's guardian responsible for the defibrillator. Coun. Rogerson to liaise with Mr Bruce to arrange a site meeting and collect evidence of regular checks undertaken on the defibrillator on a quarterly basis. Clerk to disseminate contact details to both parties.</p> <p>Guardian/deputy guardian responsibilities include:-</p> <ul style="list-style-type: none"> • Regular checks to ensure the defibrillator is functioning and will operate when needed • Ensuring electrode pads are in date • Replacement of batteries • Ensuring that if the unit is used, it gets checked and replaced with new pads after it has been used <p>It was resolved to accept the proposal.</p> <p>Prop/Sec WR/MSW</p>
6.2	<p>Gwaith atal llifogydd – Rhybudd yngyn goleuadau traffig dros dro ar Ffordd Station wedi ei gylchredeg yn barod. Gwaith yn cychwyn ar 6ed Mehefin.</p> <p>Nodwyd</p>	<p>Flood alleviation works – Notice of temporary traffic lights on Station Road already circulated. Work commencing 6th June.</p> <p>Noted.</p>
6.3	<p>Rhoddion – Ceisiadau wedi ei derbyn</p> <p>Grwp Cymunedol y Fali – Potiau blodau (Deddf Llywodraeth Leol 1972, A 137.) Rhwyd – papur bro (Deddf Llywodraeth Leol 1972, A 137.) Hosbis Dewi Sant – cefnogaeth i'r uned yn Ysbyty Penrhos Stanley (Deddf Llywodraeth Leol 1972, A 137.) Ambiwylans Awyr Cymru (Deddf Llywodraeth Leol 1972, A 137.)</p> <p>Cytunwyd rhodd o £50 i bob mudiad.</p> <p>Cynnig/Eil GB/MSW</p>	<p>Donations – Applications received</p> <p>Valley Community Group Flower Pots (LGA 1972 S137) Rhwyd – Community newsletter (LGA 1972 S137) St David's Hospice – support for unit at Ysbyty Penrhos Stanley (LGA 1972 S137) Wales Air Ambulance (LGA 1972 S137)</p> <p>It was resolved to donate £50 to each organisation.</p> <p>Prop/Sec: GB/MSW</p>

7	Deddf Gynllunio Gwlad a Thref		Town and County Planning Act	
7.1	Ceisiadau - Manylion ceisiadau ar gael ar Safle We Cyngor Sir ynys Mon – www.ynysmon.gov.uk		Applications – Details of applications available on Isle of Anglesey County Council Website – www.Ynysmon.gov.uk	
	Nil received.		Dim wedi ei derbyn.	
7.2.	Penderfyniadau – Manylion penderfyniadau ar gael ar Safle We Cyngor Sir ynys Mon – www.ynysmon.gov.uk		Decisions – Details of decisions available on Isle of Anglesey County Council Website – www.anglesey.gov.uk	
	Penderfyniad Cynllunio HHP/2022/94 Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu yn 6 Stanley Avenue, Y Fali / Valley Wedi ei ganiatau		Planning Decision HHP/2022/94 / Full application for alterations and extensions at 6 Stanley Avenue, Y Fali / Valley Granted	
8.0	Gohebiaeth Cyngor Sir Ynys Môn		Anglesey County Council Correspondence	
8.1	Blaen Raglen waith y Pwyllgor Gwaith - diweddariad https://www.ynysmon.gov.uk/cy/Cyngor/Cyngor-horwyr-Aelodau-Seneddol-ac-Aelodau-Senedd/Blaen-Raglen-Waith-y-Pwyllgor-Gwaith.aspx Wedi ei gylchredeg		Executive's forward work programme - update https://www.anglesey.gov.uk/en/Council/Councillors-MS-MPs/The-Executives-Forward-Work-Programme.aspx Wedi ei gylchredeg	
9	Unllais Cymru		One Voice Wales Correspondence	
9.1	Hyfforddiant wedi ei gylchredeg		Training - Circulated	
10	Materion Ariannol		Financial Matters	
10.1	Manylion Cyfrifon Balans 26.05.22		Details of Accounts Balances 26.05.22	
	Trysorydd	£9,561.35	Treasurer	£9,561.35
	Rheoli Busnes	£15,919.99	Business Manager	£15,919.99
	Ynys Wen	£23,093.76	Ynys Wen	£23,093.76
	Cyfalaf	£2,080.30	Capital	£2,080.30
	Cyfrif Trysorydd dim taliadau heb ei chyflwyno - arian ar gael £9561.35		Treasurers Account no unrepresented payments – available funds £9561.35.	
	Derbynwyd fel yn gywir yn unol a phwynt 3 o rheoleiddiadau Ariannol Cyngor cymuned y Fali. Cynnig/Eil MSW/WR		Accepted as correct in accordance with Section 3 of the Valley Community Council Financial Regulations. Prop/Sec MSW/WR	
10.2	Taliadau i'w gwneud mis Mehefin (£)		Payments to be made in June	
	Trosglwyddiadau Banc		Bank Transfers	
	Clerc Cyflog Mai	513.94	Clerk Salary May	513.94
	Cyngor Sir Ynys Mon – triniaeth reholi pla Parc Mwd	95.88	Isle of Anglesey County Council – Pest control treatment Parc Mwd	95.88
	Cyngor Sir Ynys Mon – Costiau Etholiad Diwrthwynebiad	540.00	Isle of Anglesey County Council – Uncontested election costs	540.00
	HMRC (PAYE Ebr -Meh)	412.16	HMRC (PAYE Apr – June)	412.16
	H Hughes Cyfieuthu	60.00	H Hughes translation	60.00
	AGS Groundcare (cynnal a chadw tiroedd)	1488.00	AGS Groundcare (ground maintenance)	1488.00
	Grwp Cymunedol y Fali (potiau blodau) (Deddf Llywodraeth Leol 1972, A 137.)	50.00	Valley Community Group flower pots (LGA 1972 S137)	50.00
	Cyngor Sir Ynys Mon – Rhent cae chwarae	25.00	Isle of Anglesey County Council – playing field rent	25.00
	Trafodion cardiau debyd wedi'u cwblhau		Debit card transactions completed	
	PMC Telephone – meicroffon a	103.08	PMC Telephone – microphone and	103.08

	cebl HDMI			HDMI cable		
	Swyddfa Bost – postio dogfennau archwiliad			5.55	Post Office – posting audit forms	
	Derbyniwyd taliadau fel rhai cywir ac fe'u hawdurdodwyd yn unol ag Adran 3 o Reoliadau Ariannol Cyngor Cymuned y Fali. Cynnig/Eil GB/MSW			Payments accepted as correct and were authorised in accordance with Section 3 of the Valley Community Council Financial Regulations. Prop/Sec GB/MSW		
10.3	Taliadau Uniongyrchol			Direct Debit Payments		
	Cwmni Company	Mis Month	Cyflenwad Supply	Parc Mwd (£)	Cloc/Clock (£)	Ynys Wen (£)
	Scottish Power	Mai/May	Trydan Electric	46	14	0
	CSYM IOACC	Mai/May	Treth Cyngor Council Tax	36.00	0	0
	British Telecom		Ffon		0	0
	Dwr Cymru		Dwr Water			
	Veolia	Mai/May	Biniau/Bins Maes Chwarae/Play area	18.97		
	PWLB		Benthyciad/L oan			
	Taliadau Uniongyrchol wedi ei nodi fel yn gywir. Cynnig/Eil GB/MSW			Direct debits noted as correct. Prop/Sec GB/MSW		
11	Cyflwyno Cofnodion Pwyllgor y Parciau 09.06.22 (IWJ) Cyflwynodd y Cynghorydd I Jones Gofnodion Pwyllgor y Parciau fel a ganlyn. Cylch gorchwyl: penderfynwyd derbyn y gwelliannau canlynol: <ul style="list-style-type: none"> Lleihau nifer y cyfarfodydd i dri bob blwyddyn. Lleihau nifer yr aelodau o bump i bedwar sy'n effeithiol o'r Cyfarfod Blynyddol a gynhelir ym mis Mai 2023. Dileu cynnwys yr is-gadeirydd ar y pwyllgor yn awtomatig. Cynnig/Eil IWJ/WR Cyllid 2022/23 Penderfynwyd derbyn yr esboniadau am orwariant posibl a derbyn bod pob ymdrech yn cael ei gwneud i gyfyngu gwariant yn y dyfodol i gostau wedi'u cyllidebu oni bai eu bod yn hanfodol o safbwynt iechyd a diogelwch. Cynnig/Eil WR/GB			Presentation of the Minutes of the Parks Committee 09.06.22 (IWJ) Councillor I Jones presented the Minutes of the Parks Committee as follows. Terms of reference: it was resolved to accept the following amendments: <ul style="list-style-type: none"> Reduce the number of meetings to three annually. Reduce the number of members from five to four effective from Annual Meeting to be held in May 2023. Remove the automatic inclusion of the vice chair on the committee. Prop/Sec IWJ/WR Finance 2022/23 It was resolved to accept the explanations for potential overspend and accept that every effort be made to limit future expenditure to budgeted costs unless essential from a health and safety perspective. Prop/Sec WR/GB		

	<p>Prydlesi pêl-droed</p> <p>Roedd Cyng Jones wedi siarad ag Ysgrifennydd yr Uwch Glwb a chadarnhaodd mai'r bwriad oedd parhau y flwyddyn nesaf. Fe roddodd enwau'r Ysgrifennydd a'r Cadeirydd i'r clerch fel y gellid diweddarau gwybodaeth cyswllt.</p> <p>Penderfynwyd derbyn yr argymhelliad y dylid codi'r ffi ar £250 y clwb am y flwyddyn i ddod.</p> <p>Cynnig/Eil WR/MSW</p> <p>ROSPA</p> <p>Derbyniwyd Adroddiad Arolygu Diogelwch ROSPA ar gyfer y cae chwarae a'r ardal chwarae.</p> <p>Penderfynwyd bod Cyng I Jones yn rhoi copi o adroddiad yr ardal chwarae i Gadeirydd Grŵp Cymunedol y Fali er mwyn iddynt allu mynd i'r afael ag unrhyw faterion a nodwyd.</p> <p>Penderfynwyd hefyd bod y clerch yn gofyn i gontractwr lleol wneud gwaith adfer tymor byr ar y platfform. Cynllun hirdymor i'w ddatblygu yn dilyn ymweliad safle gan y clerch a Chyng. Jones ym mis Gorffennaf.</p> <p>Cynnig/Eil WR/GB</p>	<p>Football leases</p> <p>Coun. Jones had spoken to the Senior Club Secretary and confirmed that it was the intention to continue next year. He provided clerk with the names of the Secretary and Chairman so that contact information could be updated.</p> <p>It was resolved to accept the recommendation that the fee be charged at £250 per club for the forthcoming year.</p> <p>Prop/Sec WR/MSW</p> <p>ROSPA</p> <p>The ROSPA Safety Inspection Report for the playing field and the play area had been received.</p> <p>It was resolved that Coun I Jones provide the Chair of the Valley Community Group with a copy of the play area report so that they may address any identified issues.</p> <p>It was also resolved that the clerk request a local contractor to undertake short term remedial work to the platform. Long term plan to be developed following a site visit by the clerk and Coun Jones in July.</p> <p>Prop/Sec WR/GB</p>
12	Llywodraeth Cymru	The Welsh Government
13	Gohebiaeth Amrywiol	Miscellaneous Correspondence
14	Dyddiad Cyfarfod Hybrid Nesaf 20.07.22 7.00	Date of Next Meeting – Hybrid Meeting 20.07.22 7.00 pm

